| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 15 Gorffennaf 2021 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 1 Archwilio Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith hyn i'r dyfodol bydd Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.

1.3. Bydd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

1.4. Yn y cyfamser mae copi o 'Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru' a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru yn ddiweddar ynghyd ag 'Ymateb y Rheolwyr' wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 2 a 3** ar gyfer eich ystyriaeth.